Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos
am 7.00pm Nos Fercher 31ain o Fai 2023

Agenda

1) Presennol

2) Ymddiheuriadau

3) Cod Ymddygiad

4) Cofnodion Cyfarfod diwethaf 26-04-2023

5) Materion yn codi o'r cofnodion

6) Adroddiad Ariannol
    1) Mantolen Ariannol
7) Archwylio

8) Cofrestr Risg/Polisia
    - Rheolau/Telerau'r Fynwent
    - Polisi Meinciau 'er cof'

9) Taliadau angen sylw

a.	Cyflog Mai	£ 651.84
b.	HMRC M 2	£ 163.00
c.	Lowri A James Offer Penrhos	£ 1,084.35 + £11.54 = **£1095.89** Wedi ei dalu
d.	Howard Huws Cyfieithu	£ 40.00
e.	D W Lewis	£ 745.00
f.	Costau Swyddfa	£ 131.26 Ink a Toner
g.	Emyr Williams (Goleuadau)	£ 666.00
h.	G L Jones 3 Invoice	£22,894.27

10) Ceisiadau Nawdd

11) Prosiectau
    i. Ysgol Y Faenol
    ii. Septic tanc Glasinfryn
    iii. Capel y Fynwent
        1. Cynllun/Spec i'r llawr

I'w trafod hefyd

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion o'r Is Bwyllgor Cyllid cynhalwyd yng Nganolfan Gymued Penrhos am 7.00pm Nos Fercher 26ain o Ebrill 2023

1) Presennol
Cyng I Ellis, Cyng L A James; Cyng J Pierce; Cyng J Lewis; Cyng B Jones; Cyng D W Jones a'r Clerc

2) Ymddiheuriadau
Cyng D Jones-Morris

3) Cod Ymddygiad
Cyng L A James a Cyng J Pierce yn datgan eu bod yn aelodau o bwyllgor y ganolfan ond ddim yn ddatgan rhagfarnol

4) Cofnodion Cyfarfod diwethaf 29-03-2023
Derbynnwyd yn gofnodion cywir ar gynnig Cyng J Pierce gafodd ei eilio gan y Cyng I Ellis

5) Materion yn codi o'r cofnodion
Dim na fyddai yn codi'n naturiol o fewn yr agenda

6) Adroddiad Ariannol
    2) Mantolen Ariannol
'Roedd y fantolen wedi ei rhannu ag yn dangos £13,144.89 yn y cyfrif cyfredol tra bod y cyfrif cadw wedi derbyn Llog o £116.71 i'w ymestyn i £45,242.50

7) Archwylio
Dim dwieddariad

8) Cofrestr Risg/Polisia
    a. Cynllun Hyfforddiant
Y clerc wedi derbyn ffurflen hunan asesu pawb ag yn y broses o ddrafftio cynllun ar gyfer y 5 mlynedd nesaf

9) Taliadau angen sylw
Argymell i'r Cyngor Llawn fod pob un yn cael eu talu ond gofynnodd Cyng L A James i atal rhag talu iddi hi gan fod yna ychydig o eitemau eraill i'w ychwanegu
Darllenodd y Clerc hefyd gais gan T G Hughes yn gofyn hawl i godi ei gostau o £600 i £700 bod haner blwyddyn oherwydd y cynnydd mewn csotau tanwydd a planhigion
Argymell derbyn a holi os oes angen gwario mwy i sicrhau safon iddo hawlio hwnnw yn ol

Talu felly Cyflog Ebrill £652.04 HMRC M 1 £162.80
Cymen Cyf Cyfieithu £ 297.34 £179.32 yn ogystal a £109.04 a £119.04 **Cyfanswm o £686.74**
Sioned e Jones Cyfieithu ar y pryd £ 40.00 Hughes and Hughes £ 3,470. 97 paentio Penrhos
D W Lewis £ 370.00 J D Gardening £ 150.00 G W Vermin £ 145.44
T G Hughes Garddio £ 700.00
Dal hyd nes bydd y Cyng Lowri A James wedi dod a'r anfonebau i gyd at ei gilydd cyn talu am Offer Penrhos £ 1,084.35 + manion y gyrraedd

10) Ceisiadau Nawdd Dim cais am nawdd Mis Yma

11) Prosiectau
    b. Ysgol Y Faenol
Cafwydd cyfarfod buddiol iawn hefo'n cyfreithiwr a chyfle iddo weld drosto ei hun cymaint o broblem yw cael ceir sy'n ymwneud ag Ysgol y Faenol yn parcio ar safle ein Canolfan bresennol

yn ogystal a gweld ceir yn defnyddio ein mynediad a'n maes parcio er mwyn cael mynediad at Ysgol y Faenol sy'n groes i delerau ein prydles ni
Trafodwyd goblygiadau hyn petae damwain yn digwydd ac awgrymwyd codi arwyddion oedd ar archeb mor fuan a phosib
Cytunwyd i geisio dod a'r mater yma i ben ein bod yn derbyn y gwahoddiad i gyfarfod a swyddogion Cyngor Gwynedd i geisio esbonio ein safbwynt.
Tra ei bod yn rhwystredig iawn fod y Ganolfan newydd yn sefyll yn wag ein prif bryder yw o ochr iechyd a diogelwch plant a bod llythyr diweddar wedi ei ddosbarthu i rieni disgyblion yr Ysgol yn taflu'r bai tuag at Cyngor Pentir a neb arall

Ganolfan bresennol

Mae peth gwaith trydannol eto i'w gwblhau a marchnata mwy arni ar Fb a hefyd holi os oes angen ystyried ei hysbysebu yn y papurau bro fel Goriad a Bangor Aye

c. Septic tanc Glasinfryn

Mae'r Clerc wedi derbyn amcanbris o £1800 gan gwmni i ymwneud a'r holl waith o wagio a chau Esbonwyd hyn i'n cyfreithwyr a gofyn iddo anfon llythyr pellach at perchennog yr hen Eglwys unwaith bydd dyddiad wedi gael ar gyfer y gwaith. Mae'r perchennog eisioes wedi llythyr o rybudd o'n bwriad i gau a di-gomisiynnu tanc ers Gorffennaf 2022 ag o bosib bellach wedi gwneud ei drefniadau

d. Capel y Fynwent
    i. Cynllun/Spec i'r llawr

Y Clerc wedi holi unigolyn ynglyn a chynllunio'r hyn sydd angen ei wneud cyn llorio y Capel a chael cyfawyddyd y byddai'n haws a mwy dibynnadwy i wneud y gwaith drwy'r Cwmni mae gweithio iddynt
Bydd angen amlinnelliad o ddyhead y Cyngor – hynny yw cael dwr i mewn a chael y dwr allan o'r adeilad oes angen ystyried ar gyfer dwr aflan yn unig yntau oes angen ystyried toiled tu mewn neu tu allan i'r Capel a'i amserlen ar gyfer y gwaith
Cytunwyd i ganolbwyntio cael y llawr yn ei le eleni 23-24 ag y byddai'r adeilad rhy fychan ar gyfer cael toiled i mewn beth bynnag
Clerc i anfon yr amlinnelliad ar e-bost a'i gwahodd i ymweld

e. Cysgodfannau
    i. Cyngor Gwynedd

Siomedig a dweud y lleiaf oedd yr ymateb gafwyd o Wynedd ynglyn a chael adnewyddu cysgodfannau ar hyd Ffordd Penrhos ag yn enwedig yn Capel Graig gan fod Cysgodfan yno eisioes a'i e-bost yn cydnabod fod yn haws adnewyddu lle mae cysgodfan yn barod.
Mae cynnig i ddisgwyl ganddynt i aros i weld os a pryd bydd cadarnhad o Llywodraeth Cymru bydd grant yn cael ei roi eleni tuag at adnewyddu cysgodfannau neu i ni brynu a gosod rhai ein hunain

12) I'w trafod

Llwybr Lodge Pentir

Y Clerc wedi ymweld a'r safle hefo Swyddog o Tim Tacluso Gwynedd ag mae nhw'n fodlon iawn i ymgymeryd a'r gwaith ag efallai angen goriad i clo y giat pan ddaw yr amser

Daeth y cfarfod i ben am 8.50